# Cyflwyniad

## Cyflwyniad 1

**Mae’r adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg i Estyn ar gyfer 2019-2020.**
**Mae'r adroddiad yn nodi pa mor effeithiol y mae lleoliadau cyfrwng Saesneg ac ysgolion yng Nghymru yn cefnogi ac yn dysgu iaith a llythrennedd Saesneg i ddysgwyr rhwng tair ac un ar ddeg oed. Nid yw'r adroddiad yn ystyried datblygiad iaith a llythrennedd ar gyfer dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn benodol**

Bydd yr adroddiad o ddiddordeb i athrawon a phenaethiaid, ymarferwyr ac arweinwyr lleoliadau heb eu cynnal, a swyddogion mewn awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, a Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd o ddiddordeb i'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg gychwynnol athrawon. Bydd canfyddiadau’r adroddiad yn helpu lleoliadau ac ysgolion sy’n cynllunio ar gyfer maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn A Curriculum for Wales (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae’r adroddiad yn darparu disgrifiadau byr o arfer effeithiol (‘vignettes’) i ddangos sut mae darparwyr yn datblygu sgiliau a gwybodaeth dysgwyr wrth wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Rydym yn ymhelaethu ar yr enghreifftiau hyn o arfer llwyddiannus mewn astudiaethau achos a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r adroddiad hwn. Mae'r deunyddiau atodol hyn hefyd yn cynnwys awgrymiadau i gefnogi gweithgareddau dysgu proffesiynol.